# CYFARFOD COMISIWN FFINIAU A DEMOCRATIAETH LEOL CYMRU A GYNHALIWYD AR 09 MEHEFIN 2020 DRWY SKYPE

**Yn bresennol:** Mr Ceri Stradling (Dirprwy Gadeirydd); Mr David Powell; Mrs Julie May; Mr Theodore Joloza.

**Swyddogion CFfDLC a oedd yn bresennol:** Mrs Shereen Williams (Prif Weithredwr); Mr Tom Jenkins (Pennaeth Polisi a Rhaglenni); Mrs Cher Cooke (Swyddog Arolygon); Mr Josh Lovell (Swyddog Arolygon); Mr Nathan Sweetman (Swyddog Cymorth Busnes).

**Amser dechrau:** 13:00
**Amser gorffen:** 15:00

**Ymddiheuriadau:** Dr Debra Williams (Cadeirydd)

## 1. Datganiadau o Fuddiant

Datganodd Mr Theo Joloza a Mrs Shereen Williams fuddiant yng Nghasnewydd, gan fod y ddau ohonynt yn byw yng Nghasnewydd. Datganodd Mrs Julie May fuddiant yng Nghastell-nedd Port Talbot, fel cydberchennog eiddo.

## 2. Cofnodion cyfarfod y Comisiwn a gynhaliwyd ar 12 Mai 2020

2.1. **Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion y cyfarfod yn gofnod cywir o'r materion a ystyriwyd, yn amodol ar rai mân newidiadau.

## 3. Arolwg Castell-nedd Port Talbot – Adroddiad Terfynol Drafft

3.1. Ystyriwyd yr adroddiad, dyddiedig 01 Mehefin 2020, gan y Swyddog Arolygon.

3.2. Ystyriodd y Comisiwn gynnwys yr adroddiad, a chynigiodd enwau ar gyfer y wardiau etholiadol.

3.3. **Cytunwyd** ar yr adroddiad, yn amodol ar fân newidiadau a wneir gan y Swyddog Arolygon cyn dechrau'r broses Sicrhau Ansawdd.

**<u>Cyfanswm nifer yr aelodau – 60</u>**

3.4. **Enwau:**

Ystyriodd y Comisiwn yr enwau arfaethedig ar gyfer y wardiau etholiadol. Isod, ceir rhestr o'r enwau cytûn yn Gymraeg a Saesneg. Penderfynwyd peidio â chynnwys acen grom yn yr enw Bryn-coch.

| **Enw Saesneg** | **Enw Cymraeg** |
|---|---|
| Aberavon | Aberafan |
| Blaengwrach and Glynneath West | Blaen-gwrach a Gorllewin Glyn-nedd |
| Bryn and Cwmavon | Bryn a Chwmafan |
| Bryn-coch North | Gogledd Bryn-coch |
| Bryn-coch South | De Bryn-coch |
| Cadoxton | Llangatwg |
| Glynneath Central and East | Canol a Dwyrain Glyn-nedd |
| Cimla and Pelenna | Cimla a Phelenna |
| Coedffranc Central | Canol Coed-ffranc |
| Coedffranc North | Gogledd Coed-ffranc |
| Coedffranc West | Gorllewin Coed-ffranc |
| Crynant, Onllwyn and Seven Sisters | Creunant, Onllwyn a Blaendulais |
| Cwmllynfell and Ystalyfera | Cwmllynfell ac Ystalyfera |
| Cymer and Glyncorrwg | Cymer a Glyncorrwg |
| Dyffryn | Dyffryn |
| Godre'r Graig | Godre'r-Graig |
| Gwaun-Cae-Gurwen and Lower Brynamman | Gwauncaegurwen a Brynaman Isaf |
| Gwynfi and Croeserw | Gwynfi a Chroeserw |
| Margam and Tai-bach | Margam a Thai-bach |
| Pontardawe | Pontardawe |
| Port Talbot | Port Talbot |
| Resolven and Tonna | Resolfen a Thonna |
| Trebanos | Trebannws |

3.5. Cymeradwyodd y Comisiwn yr Asesiad o’r Effaith ar Gydraddoldeb a’r Asesiad o’r Effaith ar yr Iaith Gymraeg ar gyfer yr arolwg o Gyngor Castell-nedd Port Talbot.

## 4. Arolwg Casnewydd – Adroddiad Terfynol Drafft

4.1. Ystyriwyd yr adroddiad, dyddiedig 02 Mehefin 2020, gan y Swyddog Arolygon.

4.2. Ystyriodd y Comisiwn gynnwys yr adroddiad, a chynigiodd enwau ar gyfer y wardiau etholiadol.

4.3. **Cytunwyd** ar yr adroddiad, yn amodol ar fân newidiadau a wneir gan y Swyddog Arolygon cyn dechrau’r broses Sicrhau Ansawdd.

**<u>Cyfanswm nifer yr aelodau – 51</u>**

4.4. **Enwau:**

Ystyriodd y Comisiwn yr enwau arfaethedig ar gyfer y wardiau etholiadol. Isod, ceir rhestr o’r enwau cytûn yn Gymraeg a Saesneg. Penderfynwyd y dylai’r enw Parc Tredegar ragflaenu’r enw Maerun.

| Enw Saesneg | Enw Cymraeg |
|---|---|
| Allt-yr-Yn | Allt-yr-Ynn |
| Beechwood | Beechwood |
| Bettws | Betws |
| Bishton and Langstone | Trefesgob a Langstone |
| Gaer | Y Gaer |
| Graig | Y Graig |
| Lliswerry | Llyswyry |
| Llanwern | Llan-wern |
| Pillgwenlly | Pilgwenlli |
| Ringland | Ringland |
| Rogerstone East | Dwyrain Tŷ-du |
| Rogerstone North | Gogledd Tŷ-du |

| | |
|---|---|
| Rogerstone West | Gorllewin Tŷ-du |
| Stow Hill | Stow Hill |
| Tredegar Park and Marshfield | Tredegar Parc a Maerun |
| Victoria | Victoria |

4.5. Cymeradwyodd y Comisiwn yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a'r Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg ar gyfer yr arolwg o Gyngor Dinas Casnewydd.

## 5. Unrhyw fater perthnasol arall

5.1. Crybwyllodd y PW fod dyddiadau'r ymgynghoriadau wedi'u dosbarthu, a chadarnhaodd y cafwyd un ymateb ar gyfer yr holiadur cyn-arolwg ar gyfer Sir Fynwy.

5.2. Bydd y PW yn cysylltu â Chyngor Sir Fynwy ynghylch ei ymateb i'r ymgynghoriad cyn-arolwg ar gyfer Arolwg Etholiadol Sir Fynwy.

5.3. Cadarnhaodd y PW fod awdurdodau lleol Ynys Môn, Caerffili, Caerdydd, Wrecsam a Bro Morgannwg wedi cael y newyddion diweddaraf am ddyddiadau ailddechrau'r cyfnodau ymgynghori. Rhoddodd Cyngor Caerdydd wybod i'r PW na fydd yn cyflwyno ymateb cyfunol – daw'r ymatebion gan grwpiau'r pleidiau gwleidyddol yng Nghyngor Caerdydd. Cytunwyd ar estyniadau ar gyfer ymgynghoriad drafft Wrecsam ac ymgynghoriad drafft Bro Morgannwg, gan i Gyngor Bro Morgannwg roi gwybod i'r PW na fydd yn ailymgynnull tan ar ôl yr haf.

5.4. Crybwyllodd y PPRh y bu newidiadau o ran aseinio arolygon ar gyfer y Swyddogion Arolygon. Mae hyn oherwydd bod dau Swyddog Arolygon ar secondiad gyda Llywodraeth Cymru i ymgymryd â phrosiect**.**

5.5. Cadarnhaodd y PW fod brîff i Arweinwyr Grwpiau ar gyfer Arolwg Etholiadol Ynys Môn yn cael ei gynnal ar 23 Mehefin 2020.

5.6. Rhoddodd y PW ddiweddariad ar orchmynion. Bydd Llywodraeth Cymru yn gwneud pob un o'r gorchmynion cyn yr etholiadau llywodraeth leol yn 2022.

5.7. Cadarnhaodd y PW fod y gorchmynion drafft gyda Llywodraeth Cymru.

5.8. Cadarnhaodd y PPRh y bydd Arolwg Etholiadol Terfynol Sir y Fflint yn cael ei gyhoeddi ar 16 Mehefin 2020.

5.9. Rhoddodd y PW ddiweddariad ar ailagor swyddfa CFfDLC. Roedd y diweddariad hwn yn cynnwys y byddai'r swyddfa ar agor o 15 Mehefin, o

ddydd Llun i ddydd Iau, ac y byddai staff yn gweithio gartref bob dydd Gwener.  Ni ddylai fod mwy na phedwar aelod staff yn y swyddfa ar unrhyw adeg.  Ataliwyd dyraniadau lleoedd parcio**.**  Bydd mygydau a hylif diheintio dwylo ar gael.

5.10. Bydd y PW yn trafod dyddiadau ac amseroedd addas ar gyfer sesiynau holi ac ateb gyda Mr David Powell a Mrs Julie May.

## 6. Dyddiad y cyfarfod nesaf: 30 Mehefin 2020